

Canllawiau ar gyfer ceisiadau am drwydded amgylcheddol: Rhan C0.5 - Amrywiad gweinyddol i drwydded safonol neu benodol

Darllenwch y nodiadau canllaw hyn yn ofalus cyn i chi lenwi'r ffurflenni. Bydd y canllawiau hyn yn eich helpu i gwblhau rhan C0.5 o'r pecyn ffurflen gais. Mae'r holl ddogfennau canllaw perthnasol ar gael ar ein gwefan.

Pan fyddwch yn gweld y term 'cyfeirnod y ddogfen' ar y ffurflen, nodwch gyfeirnodau'r dogfennau ac anfonwch y dogfennau gyda'r ffurflen gais. Os byddwch yn cyflwyno dogfennau nad oes eu hangen, nodwch na chânt eu hasesu.

Sut i gysylltu â ni: Os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen hon, cysylltwch â'r person a'i hanfonodd atoch neu cysylltwch â ni drwy:

Ymholiadau cyffredinol dros y ffôn: 0300 065 3000 (o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm).

E-bost: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Gwefan: www.cyfoethnaturiol.cymru

Ble i anfon eich cais: Gallwch anfon eich cais drwy e-bost neu yn y post. Gallwn brosesu ceisiadau yn gyflymach os byddwn yn eu derbyn drwy e-bost (yn electronig). Anfonwch eich ffurflen gais wedi'i chwblhau i:

E-bost: canolfanderbyntrwyddedau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Post: Canolfan Derbyn Trwyddedau, Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP

Anfonwch; 1 copi electronig neu CD/cofbin ac 1 copi papur, NEU 2 gopi papur.

Cynnwys

1 Y drwydded

2 Eich newidiadau arfaethedig

3 Gwybodaeth ategol

4 Diogelwch cenedlaethol

5 Datganiad

1 Y drwydded

Rhif cyfeirnod unigryw a roddir i chi yw'r rhif hwn ac mae'n wahanol i unrhyw gyfeirnod trwydded arall.

Os nad oes rhif cyfeirnod y cwsmer gennych, gadewch y blwch hwn yn wag. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod hefyd wedi cwblhau rhan A o'r pecyn ffurflen gais.

1a Trafodaethau cyn eich cais

Os ydych wedi cael trafodaethau gyda ni cyn gwneud eich cais, rhowch gyfeirnod neu fanylion y cais ar ddalen ar wahân a nodwch y cyfeirnod rydych wedi'i roi i'r ddogfen.

Wedyn, byddwn yn gallu cyfeirio nôl at y wybodaeth rydych eisoes wedi'i chyflwyno, a fydd yn ein helpu i wneud penderfyniad ynghylch eich cais.

Gallwch gael rhagor o arweiniad ar drafodaethau cyn gwneud cais drwy ffonio 0300 065 3000 neu drwy lawrlwytho'r canllawiau ar ein gwefan.

1b Rhif y drwydded

Nodwch rif y drwydded bresennol. Mae'n bosibl y cyfeirir ato fel rhif y drwydded neu rif caniatâd o dan ddeddfwriaeth flaenorol.

1c Manylion y safle

Dim ond os ydych yn gwneud newidiadau i drwydded ar gyfer safle y bydd angen i chi gwblhau'r adran hon.

2 Eich newidiadau arfaethedig

2a Manylion y newid arfaethedig

Gellir gwneud newid gweinyddol, er enghraifft, er mwyn cywiro camgymeriadau ar drwydded, cynyddu maint ardal cyfleuster safonol heb unrhyw newidiadau eraill, neu newid trwydded rheoli gwastraff ag amodau sefydlog i gyfleuster safonol.

I gael rhagor o fanylion, gweler y canllawiau ar gyfer y cynllun taliadau Trwyddedu Amgylcheddol ar y tudalennau 'Sut rydym yn eich rheoleiddio' ar ein gwefan.

Nodwch fanylion cryno yn y blwch ar y ffurflen. Os bydd angen i chi ddarparu rhagor o wybodaeth, atodwch y wybodaeth honno, rhwch gyfeirnod dogfen iddi a chyfeiriwch at y cyfeirnod hwnnw yn y blwch.

Os yw eich newidiadau yn cynnwys newidiadau i'ch manylion personol neu fanylion eich cwmni (er enghraifft, cyfeiriad neu fanylion cyswllt newydd), llenwch yr adrannau perthnasol yn rhan A a thiciwch y blwch i ddangos eich bod wedi gwneud hynny.

Noder na ellir ystyried cais am amrywiad sy'n cynnwys honiad bod y wybodaeth yn gyfrinachol, ac eithrio am resymau sy'n ymwneud â diogelwch cenedlaethol, yn amrywiad gweinyddol.

3 Gwybodaeth ategol

3a A yw'r newid yn ymwneud â chynyddu maint ardal trwydded safonol?

Os ydych yn ychwanegu tir fel rhan o'ch cais i newid eich trwydded *safonol*, rhaid i chi anfon cynllun safle atom sy'n nodi'r holl dir lle y cynhelir eich gweithgareddau neu weithrediadau gwastraff, neu weithrediadau gwastraff mwyngloddio (gan gynnwys cyfleusterau gwastraff mwyngloddio) (neu'r ddau).

Dylai'r cynllun safle **ddarparu dyddiad a chyfeirnod** a rhaid sicrhau ei fod wedi'i **lunio'n gywir yn ôl graddfa ddiffiniedig**.

Rhaid marcio amlinelliad y safle yn glir **mewn gwyrd**. Bydd yn ddefnyddiol pe gallech ddangos nodweddion lleol ar y cynllun er mwyn ein helpu i osod y safle yn ei amgylchedd lleol.

Ar gyfer trwyddedau ar gyfer gweithgareddau gollwng dŵr, rhaid i'ch cynllun safle ddangos y cyfleuster a lleoliad yr allfa lle y caiff yr elifiant ei ollwng i'r dŵr derbyn.

Rhaid marcio amlinelliad y cynllun yn glir **mewn gwyrd**.

Ar gyfer gwaith trin carthion pecynnol, rhaid i gynllun y safle ddangos maint y gwaith trin, y bibell ollwng a'r lleoliad gollwng, nid yr eiddo a wasanaethir gan y gwaith.

Noder: Gall gweithgaredd dŵr daear yn y tarddle gynnwys gollwng i'r ddaear drwy systemau ymdreiddio. Bydd y rhain yn ollyngiadau yn y tarddle a bydd yn rhaid llenwi ffurflen B6 ac NID ffurflen B7.

Os ydych yn anfon copi papur o gynllun eich safle atom, rhaid iddo fod yn faint A3 neu A4. Fel arall, gallwch anfon copi electronig atom ar CD. I weld enghraifft o gynllun addas, gweler uchod.

Mater hawlfraint

Nodwch y bydd gan rai cynlluniau a mapiau faterion hawlfraint. Oni bai eich bod yn defnyddio eich mapiau neu gynlluniau eich hun neu eich bod wedi talu am yr hawlfraint (er enghraifft, gyda'r Arolwg Ordnans), mae'n bosibl na fydd gennych yr hawl i atgynhyrchu'r map na'r cynllun.

6 Diogelwch cenedlaethol


Dylid sicrhau eich bod wedi amgáu llythyr gyda'r cais yn datgan eich bod wedi ysgrifennu at weinidogion Cymru i hawlio diogelwch cenedlaethol mewn perthynas â'ch cais. Gallwch ddod o hyd i ganllawiau ar ddiogelwch cenedlaethol yn y ddogfen 'Core Environmental permitting guidance' a gyhoeddwyd gan Defra ac sydd ar gael ar ein gwefan.

Ni allwch wneud cais am ddiogelwch cenedlaethol drwy'r cais hwn.

7 Datganiad

Dylid sicrhau mai person perthnasol sy'n gwneud y datganiad.

Ystyr 'pobl berthnasol' yw pob ymgeisydd, ac yn achos cwmni, cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd y cwmni neu unrhyw swyddog neu gyflogai tebyg a restrir ar benodiadau cyfredol yn Nhŷ'r Cwmnïau. Yn achos Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (LLP), mae'n cynnwys unrhyw bartner.



Os ydych yn llofnodi ar ran cwmni, dylech nodi enw'r cwmni a rhif y cwmni.